

# Cyngor Cymuned Pentir

Cynhelir cyfarfod Rhithiol o'r Is Bwyllgor Cyllid am 7.00pm nos Fercher 7fed o Hydref 2020

## Agenda

Presennol

Ymddiheuriadau

Cod Ymddygiad

Cofnodion Cyfarfod diwethaf\_02-09-2020

Materion yn codi o'r cofnodion

Adroddiad Ariannol

Archwylwyr Allannol

Ceisiadau Nawdd .

- Ysgol Feithrin Penrhos

Taliadau angen sylw

D W Lewis

Torri gwair Medi

£800.00

Cyflog a Treth Incwm

Mis Hydref

Derbynebion

4 angladd wedi eu cynnal yn ystod Medi /Hydref

I'w trafod hefyd

- Asesu Risg
- Diweddariad Prosiect Ysgol Y Faenol

Prosiectau angen sylw

Cae Chwarae Caerhun  
Lon i gyfeiriad Canolfan Glasinfryn  
Diffibs ychwanegol  
Garddwr i'r bocsus Blodau

**Cyfarfod o'r Is Bwyllgor Cyllid nos Fercher Zail o Fedi 2020  
yn Rhithiol am 7.00pm.**

**Cofnodion**

Presennol Cyng L A James (Cadeirydd) Cyng D Jones-Morris a Cyng B Jones

Ymddiheuriadau Cyng J Pierce a Cyng D W Jones

Cod Ymddygiad Atgoffwyd pawb o'r Cod ymddygiad ag os oedd gan rhywun angen datgan buddiant yna byddai angen iddynt wneud hynny ar lafar heno fel y gallai'r Clerc gofnodi  
Ni fu unrhyw Ddatgan Buddiant

Cofnodion Cyfarfod diwethaf 26-02-2020 Tra byddai y cofnodion wedi eu rhanu yn y Cyngor Llawn ddilynodd y Cyf Bly n Mis Gorffennaf nid oeddant wedi eu derbyn yn swyddogol. Cyng D Jones-Morris yn cynnig a'r Cyng B Jones yn eilio

Materion yn codi o'r cofnodion Oherwydd Covid 19 'roedd 6 mis wedi pasio ers y cyfarfod dwaetha ond nodwyd fod angen diweddarau yr Asesiad Risg bellach i gyfro y pandemig.

Ymdrin a pwyntiau gweithredu oedd y bwriad ar gyfer IBC Mis Mawrth ond ni gafodd ei gynnal.

Trafodwyd ein sefyllfa fel Cyngor a'n dyletswyddau parthed y ddwy Ganolfan Gymunedol sydd dan ein rheolaeth.

Tra bod Canolfan Penrhos wedi bod ar agor i'r Gwasanaeth Ambiwlans am beth amser a'r profion angenrheidiol wedi eu cynnal 'Weightwatchers' oedd yr unig gorff arall oedd wedi dechrau cyfarfod yno – pwyso unigolion yn unig a sustem un ffordd yn cael ei gweithredu.

Pwyllgor wedi gwneud asesiad risg eu hunain ag yn derbyn asesiad risg gan y defnyddwyr yn ogystal a sicrhau eu bod yn cadw enw a rhif cyswllt pob defnyddiwr

Canolfan Glasinfryn ddim wedi ail-agor

Awgrymu fod y Cyngor yn cyd-weithio hefo pwyllgorau y ddwy ganolfan

Nodwyd fod Cwmni Wynne Construction wedi gosod ffens ddiogelwch oedd yn rhwystro llwybr dianc o un o ddrysau tan y Ganolfan a'u bod hefyd wedi lledu'r fynedfa o'r ffordd oedd yn golygu nad oedd posib cau y Giat i'r ffordd fawr

Awgrymu fod y man ymgynull Tan yn cael ei symud i gornel pella y lawnt

Adroddiad Ariannol Rhannwyd mantolen ariannol gyfredol oedd yn dangos £47,932.59 yn y Cyfrif Cyfredol a £25,036.06 yn y cyfrif Cadw

Ail ran y Praesept £25K wedi ei dderbyn a £10K wedi ei drosglwyddo i'r cyfrif cadw yn ystod y mis

Archwylwyr Allannol

Y Clerc wedi anfon popeth oedd ei angen at BDO ond dim ymateb wedi dod yn ol

Ceisiadau Nawdd

- Ysgol Tryfan
- Grwp Apel Cancr a Haematoleg Alaw
- Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Ogwen
- Llais Ogwan

Arwahan i Gais Llais Ogwan y tri arall wedi eu derbyn cyn y clo a Llais Ogwan wedi anfon yr un mantolen ariannol a'r un dderbynwyd ganddynt 9 mis yn ol

Clerc i gysylltu a Ysgol Tryfan a Eisteddfod Dyffryn Ogwen i esbonio pam na fu ymateb a beth yw eu sefyllfa presennol nhw gan fod Eisteddfod eleni wedi ei gohirio

Taliadau wnaethpwyd yn ystod Awst Esboniodd y Clerc pam fod 5 taliad wedi ei wneud i HMRC a'r taliadau eraill

H M R C Mis Ebrill – Mai – Mehefin \_ Gorffennaf ag Awst D W Leiws Torri gwair Gorffennaf  
Cyflog Mis 5 Awst Cyfrif Cadw Trosglwyddiad £10K

Cytunwyd argymell y taliadau a ganlyn

D W Lewis Torri gwair Awst £685.00

Costau y Clerc un siec i dalu am yr ink a'r papur £74.98 yn ogystal a'r cost postio o £7.50 Un Siec am gyfanswm o £82.48

Delwedd SSL £ 70.85

Derbynwyd ail ran y Praesept £25K

I'w trafod hefyd

- Newid Graddfeydd Cyflog y Clerc - Rhannodd y Clerc y wybodaeth oedd wedi ei dderbyn taflen yn dangos newidiadau tal Clercod yn genedlaethol . Ar lefel cyflog pwynt 23 mae y raddfa yn newid o £14.03 i £14.42 Codiad cyflog o 39c yr awr
  - **Cadeirydd i gysylltu a'r cyfrifwyr sy'n gwneud y cyflog ar ein rhan**
- HMRC - TWE - Rhybudd arall wedi cyrraedd o HMRC fod gennym credid TWE (PAYE) o £14,561.12 Mae hwn oherwydd fod HMRC wedi trosglwyddo y swm yma i'n cyfrif nol yn Mawrth 2019 mewn camgymeriad ag er i'r swm gael ei drosglwyddo nol gan HSBC wythnos yn ddiweddarach mae'n amlwg eu bod wedi ei drosglwyddo i Adran TWE yn hytrach na TAW
  - Clerc i gysylltu eto hefo HMRC
- Asesu Risg - Cyn y Clo 'roedd bwriad i'r IBC ymweld a'r Cofrestr asesiad risg y cyngor ag edrych drwy y pwyntiau gweithredu oedd wedi eu adnabod. Nid oedd hynny wedi ei wneud ond yn ychwanegol bellach bydd rhaid ymweld ag addasu y gofrestr i gyfro Covid19. Trafodwyd beth yw ein rôl i gefnogi pwyllgorau rheoli ein dwy Ganolfan Gymunedol a sicrhau fod y pwyllgorau hynny yn dilyn y canllawiau priodol
- Diweddariad Prosiect Ysgol Y Faenol - Roedd y prosiect bellach wedi cychwyn ond datgelwyd pryder ynglyn a ffensus oedd wedi eu gosod yng nghefn y Ganolfan bresennol oedd yn cyfyngu y gallu i ddianc tae tan yn torri allan yn y ganolfan a hefyd fod angen sicrhau diogelwch wrth giat y fynedfa sydd wedi ei lledu gan mai yno mae man ymgynnull tae tan yn torri allan. Awgrymu fod rhaid ystyried symud y man ymgynnull i ben arall y lawnt. Cadeirydd am gysylltu hefo Rheolwr y prosiect yn Cyngor Gwynedd

Prosiectau angen sylw Cae Chwarae Caerhun Yn dilyn archwyliad RoSPA nodwyd nad oedd unrhyw Risg Uchel wedi cael ei adnabod ond fod ol traul ar gadwyni y swing a fod gwagle rhwng rhai o'r teils diogelwch ar y llawr. Dau fater oedd wedi ei nodi yn 2018 a 2019. Oherwydd hynny gofynwyd i'r Clerc holi am amcanbris i adnewyddu y ddau fater.

Lon i gyfeiriad Canolfan Glasinfryn Cyng M Baines wedi cael cwyn am gyflwr y ffordd yma ag mi fu y Cyngor yn edrych ar y lleoliad nol yn 2014 ond am ba bynnag reswm wedi penderfynu peidio gweithredu ar y pryd. Clerc i gychwyn gwneud ymholiadau hefo Gamlin gan fod cyfeiriad yng nghofnodion y Cyngor Hydref 2014 a llythyr wedi ei anfon at Gamlins gan gyn-glerc ond dim i gadarnhau fod ymateb wedi ei dderbyn

Cysgodfan Nant y Mownt Oherwydd i ni dderbyn cwyn munud olaf yn gofyn am symud lleoliad y gygodfan ychydig i fyny i'r glaswellt ni fuodd posib cael caniatad na cyfarfod safle oherwydd Covid 19

Diffibs ychwanegol Argymell ein bod yn ystyried lleoliadau newydd a hefyd argymell ein bod yn gosod yr un i Glasinfryn ar bolyn fel y 4 arall. Cyngorwyr i ystyried lleoliadau gyda un awgrym am gyffiniau Stad Y Rhos

Garddwr i'r bocsus Blodau – Nid oedd ymatenb wedi ei dderbyn gan un contactwr oedd wedi dangos diddordeb er i ni drefnu Llyfr Archebu Swyddogol. Clerc i chwilio am rhywun arall